CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# Rhaglen Pwyllgor Mwynderau

**•19 / 02 / 2024 •7.00yh • Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**
**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol:
https://us02web.zoom.us/j/83982046675?pwd=ZWQ2c0FaaDVJMFRKZHk1NTMzVlgrQT09

Meeting ID: 839 8204 6675
Passcode: 108763

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 19eg CHWEFROR 2024 AM 7.00 YR HWYR**

AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 . | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| 4. | | **Cofnodion**<br>Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2024. |
| 5. | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol Chwefror 2024<br>Derbyn crynodeb o archwiliadau misol Helen Jones o’r caeau chwarae. |
| 6. | | **Llwybrau Cerdded**<br>Derbyn adroddiad gan John Evans, Cerddwr Llwybrau. Mae lluniau John gyda nodiadau arnynt wedi eu hanfon atoch gyda’r agenda hon. |
| 7. | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**<br>Derbyn adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw.<br>• Bwrdd llechen ar gyfer y Berllan – ar y gweill<br>• Llwyfan offer Cae Manod – heb gwblhau<br>• Lloches Bws Glanypwll – wedi ei gwblhau<br>• Sylfeini ar gyfer byrddau yn y Berllan – wedi ei gwblhau<br>• Prisio Gwaith Trwsio Cwt Canŵs – wrthi’n cael ei wneud<br>• Gwaith diogelu, tir Pen y Bryn, Baltic |
| 8. | | **Torri Gwrychoedd ac ati – Y Parc**<br>Diweddariad ar y sefyllfa. |
| 9. | | **Meinciau Gardd Encil**<br>Diweddariad ar y sefyllfa. |
| 10. | | **Maes Parcio Pant-yr-Ynn**<br>Diweddariad ar y sefyllfa. |
| 11. | | **MUGA yn y Parc**<br>Derbyn unrhyw ddiweddariad ar ymholiadau i greu MUGA yn Y Parc. |
| 12. | | **Binau Halen**<br>Ystyried ceisiadau am finiau halen a dderbyniwyd gan aelodau’r gymuned, rhestr ynghlwm. |
| 13. | | **Cae Tanygrisiau – Diweddariad**<br>Ystyried ebost a dderbyniwyd gan Gethin Vaughan Jones, Cyngor Gwynedd ar brydles Cae Tanygrisiau, a phenderfynu sut i symud ymlaen. Copïau o ohebiaeth ynghlwm. |
| 14. | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>**1. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C24/0092/03/AM<br>Lleoliad / Location: Tir Ger / Land By 5 Heol Leeds, Blaenau Ffestiniog, LL41 3HH<br>Bwriad / Proposal: Cais amlinellol i godi 1 annedd arwahan newydd 3 ystafell wely<br>Outline planning application for x1 new detached 3 bedroom dwelling |

| | | |
|---|---|---|
| | | https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34921&language=cy<br><br>**2. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C24/0097/03/LL<br>Lleoliad / Location: Rehau Plastics, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3RY<br>Bwriad / Proposal: Gosod system solar PV ar y to<br>Install solar PV system on roof<br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34924&language=cy<br><br>**3. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C24/0101/03/DT Lleoliad / Location: Mount Pleasant, Talywaenydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NA Bwriad / Proposal: Estyniad cefn arfaethedig. Proposed rear extension.<br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34930&language=cy |
| **15.** | | **Cwmnïau Cynnal a Chadw Offer Chwarae**<br>Derbyn ebost gan Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd, ar ddefnyddio cwmnïau cynnal a chadw offer, copi ynghlwm. Yr unig Gyngor arall sydd wedi ymateb yw Cyngor Tref Porthmadog, ac maent hwythau yn defnyddio G L Jones. Gan fod Cyngor Tref Ffestiniog yn anarferol o ran y nifer o gaeau chwarae ac offer y mae'n gofalu amdanynt, nid yw'n debygol y bydd llawer o ymateb fel arall. |
| **16.** | | **Cynllun Hydro Cwm Cynfal**<br>Ystyried pa sylwadau yr hoffai'r Cyngor Tref eu gwneud, fel ymgynghorai statudol, cyn i'r cais cynllunio swyddogol gael ei gyflwyno. Mae'r ymgeisydd yn awyddus i weld sylwadau pawb, er mwyn ystyried os oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'r cynllun cyn cyflwyno'r cais. |
| **17.** | | **Cais am Gymorth Ariannol – Dawns i Bawb**<br>Ystyried cais am gymorth ariannol, ffurflen gais a chyfrifon ynghlwm. |
| **18.** | | **Rhybudd o Gynnig – Tir Garregfilltir**<br>Ystyried Rhybudd o Gynnig gan Y Cynghorydd Eifiona Davies:<br>"Mae yna aelod o'r cyhoedd wedi bod mewn cysylltiad â Mabon ap Gwynfor a Liz Saville Roberts ynglŷn â'r tir, yn holi os yw'n bosibl i'r Cyngor Tref roi ffens er mwyn cau yr agoriad, a'i wneud yn sâff fel nad oes neb yn gallu rhoi rhagor o lanast yno." |
| **19.** | | **Gŵyl yr Haf 2024**<br>Ystyried trefniadau ar gyfer Gŵyl Haf 2024. |

SEGrahamCameron.

Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref

DYDDIAD 13 Chwefror 2024.